# CHWARAEON CYMRU

## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL

## 2020-2024





Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

CHWARAEON CYMRU

# RHAGAIR Y PRIF WEITHREDWR

**Mae datblygu ein trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) yn gam hanfodol tuag at sbarduno ein gweithredu i drechu anghydraddoldeb yn ei amrywiol ffurfiau. Mae'r trafodaethau'n dilyn y protestio byd-eang wedi i George Floyd gael ei lofruddio yn UDA, a'r drafodaeth ddilynol a'r materion a godwyd mewn perthynas â chwaraeon, hil ac ethnigrwydd. Mae'r ddeialog hon wedi adlewyrchu'r ffaith bod y gwaith blaenorol wedi methu newid y tirlun yn ddigonol, na dangos arweiniad er mwyn symud oddi wrth wneud ymrwymiad i newid i fynd ati i gyflawni'r newid hwnnw.**

Rydym wedi datgan yn glir yn y weledigaeth ar gyfer chwaraeon ein bod eisiau i Gymru fod yn genedl actif lle gall **pawb** fwynhau chwaraeon am oes. Yn sail i hyn mae camau gweithredu clir er mwyn sicrhau bod chwaraeon yn **gynhwysol** ac yn rhoi **profiad gwych i bawb**

Rydym wedi gweld cynnydd mewn rhai meysydd, yn ein gwaith ni ein hunain ac yng ngwaith y sector:

- Mae newid positif wedi bod yng nghydbwysedd y rhywiau ar Fyrddau'r sector chwaraeon yng Nghymru (Gorffennaf 2018-Chwefror 2020): Mae 7 sefydliad wedi cyflawni polisi Chwaraeon Cymru yn awr ar gyfer amrywiaeth ar fyrddau, gyda 5 pellach ddim ond ychydig bwyntiau % o wneud hynny. Felly mae'r darlun hwn wedi gwella'n fawr o gymharu â dim ond 4 wedi ei gyflawni a dim yn agos ato yn 2018.
- Partneriaeth Chwaraeon Cymru gyda'r WCVA er mwyn sefydlu BME Sport Cymru mewn ymgais i gysylltu'r sector chwaraeon a chymunedau lleol drwy hyfforddiant, eiriolaeth a chydweithredu strategol.

Hefyd, mae bwrdd Chwaraeon Cymru wedi sefydlu is-grŵp yn ddiweddar i roi ffocws ychwanegol ac i sbarduno'r agenda cydraddoldeb. Yn ogystal, mae Chwaraeon Cymru wedi ymuno â Chynghorau Chwaraeon y Gwledydd Cartref eraill ac UK Sport i gefnogi cenhadaeth ar y cyd i sefydlu system chwaraeon gwbl gynhwysol sy'n adlewyrchu cymdeithas y DU yn briodol ac i gael gwared ar hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol mewn chwaraeon.

Rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud o hyd ac y bydd angen dull mwy systemig o weithredu os ydym am weld newid ar y raddfa sy'n ofynnol er mwyn i ni gyflawni ein gweledigaeth ar y cyd.

Bydd Chwaraeon Cymru yn parhau, fel rhan o'r cynllun hwn, i wrando, dysgu a chynnwys y rhai sydd wedi'u heffeithio gan yr anghydraddoldeb hwn i sicrhau ein bod yn gweithredu yn y ffordd briodol, er mwyn creu newid tymor hir, ystyrlon.

***SARAH POWELL***

# CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD – HANES A CHEFNDIR STATUDOL CHWARAEON CYMRU 03

2. STRATEGAETH CHWARAEON CYMRU 2019 04

3. AMCANION CYDRADDOLDEB A RENNIR 05

4. MAPIO'R AMCANION CYDRADDOLDEB I DDATGANIADAU BWRIAD STRATEGOL 06

5. CAMAU GWEITHREDU CYDRADDOLDEB CHWARAEON CYMRU 08

6. CYHOEDDI GWYBODAETH CYDRADDOLDEB 11

7. ASESIAD EFFAITH 11

8. MONITRO AC ADRODD YN ÔL 11

## CYFLWYNIAD – HANES A CHEFNDIR STATUDOL CHWARAEON CYMRU.

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu Chwaraeon Cymru) gan Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth ac arferion chwaraeon a hamdden gorfforol ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Fe'i cyllidir gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru ac incwm sydd wedi'i gynhyrchu o'i weithgareddau.

Enwebodd Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 (fel y'i diwygiwyd) Gyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnachu) fel y corff cyfrifol am ddosbarthu cyllid sy'n cael ei gynhyrchu gan y Loteri i chwaraeon yng Nghymru. Mae dyletswyddau Chwaraeon Cymru wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau Loteri'n cael eu cyflawni yn unol â'r cyfarwyddiadau cofnodi a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Digidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, yn unol ag Adran 26(1) Deddf y Loteri Genedlaethol etc 1993 a'r Datganiad o Ofynion Ariannol a gyhoeddwyd o dan Adran 26(3) y Ddeddf.

### SWYDDFA GOFRESTREDIG

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW

# STRATEGAETH CHWARAEON CYMRU 2019

Rydym eisiau datgloi manteision chwaraeon i bawb yng Nghymru. I wneud hynny, rydym yn gwybod na allwn sefyll yn llonydd. Rhaid i chwaraeon yng Nghymru ddal ati i symud.

Dyma pam ein bod wedi datblygu'r strategaeth Galluogi i Chwaraeon yng Nghymru Ffynnu. Mae wedi'i chreu gyda help pobl o bob rhan o Gymru. Rydym wedi bod yn gwrando ar gyfres amrywiol o leisiau ac mae'n glir bod angen newid.

Mae ein Gweledigaeth ar gyfer Cymru lle mae pawb yn actif. O'r rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain fel pobl sy'n dda mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau aur.

## BETH RYDYM EISIAU EI GYFLAWNI

Yn ein strategaeth, rydym wedi amlinellu chwe lefel o fwriad strategol a fydd yn dylanwadu ar y ffordd mae Chwaraeon Cymru yn gweithio yn y dyfodol:

**1. BOD YN BERSON-GANOLOG:** Anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, boed yn dechrau arni, yn anelu am gynnydd neu'n ceisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd

**2. RHOI DECHRAU GWYCH I BOB PERSON IFANC:** Pob person ifanc â sgiliau, hyder a chymhelliant i alluogi iddyn nhw fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon; gan roi iddyn nhw sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

**3. SICRHAU BOD PAWB YN CAEL CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON:** Chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

**4. DOD Â PHOBL AT EI GILYDD AR GYFER Y TYMOR HIR:** Sector chwaraeon cydweithredol, cynaliadwy a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan wybodaeth a dysgu ar y cyd.

**5. DANGOS MANTEISION CHWARAEON:** Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

**6. BOD YN SEFYDLIAD O WERTH MAWR:** Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf drwy ein staff gwerthfawr.





# AMCANION CYDRADDOLDEB A RENNIR

## AMCANION CYDRADDOLDEB TYMOR HIR A RENNIR CHWARAEON CYMRU. BYDDWN YN CYDWEITHIO I WNEUD Y CANLYNOL:

1. **CYNYDDU AMRYWIAETH Y GWEITHLU A CHYNHWYSIANT.**
2. **DILEU BYLCHAU CYFLOG.**
3. **GWEITHIO GYDA'R GYMUNED.**
4. **SICRHAU BOD CYDRADDOLDEB YN CAEL EI YMGORFFORI YN Y BROSES GAFFAEL/COMISIYNU AC YN CAEL EI REOLI AR DRAWS Y DDARPARIAETH.**
5. **SICRHAU BOD Y GWASANAETHAU A DDARPERIR YN ADLEWYRCHU ANGHENION UNIGOL.**

Mae Chwaraeon Cymru yn rhan o grŵp o gyrff cyhoeddus sy'n cael ei adnabod fel Partneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru. Mae wedi cydweithio i greu casgliad ar y cyd o amcanion cydraddoldeb lefel uchel a rennir, er mwyn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd Chwaraeon Cymru a phob corff cyhoeddus yn cyhoeddi'n unigol y camau y byddant yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion a rennir yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol.

Bydd rhagor o gydweithredu yn y dyfodol yn cael ei gofnodi drwy gamau a rennir a mesurau canlyniad ar y cyd. Mae Chwaraeon Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r amcanion fel gwybodaeth ategol i'r strategaeth, gan ddangos cyd-fynd clir.

Dyma'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig:

Cyngor Celfyddydau Cymru; Gyrfa Cymru; Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC); Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC); Ymddiriedolaeth y GIG Prifysgol Felindre; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro; Amgueddfa Genedlaethol Cymru; Cyfoeth Naturiol Cymru; Chwaraeon Cymru; Comisiynydd y Gymraeg; Awdurdod Cyllid Cymru.

Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol i lunio'r amcanion cydraddoldeb. Cafodd y rhain eu mabwysiadu gan fyrddau'r 11 sefydliad. Cytunodd Bwrdd Chwaraeon Cymru i'r amcanion yn ei gyfarfod ar 14eg Chwefror 2020.

# MAPIO'R AMCANION CYDRADDOLDEB A RENNIR I'R DATGANIADAU BWRIAD STRATEGOL

## AMCANION CYDRADDOLDEB A RENNIR

- GWEITHIO GYDA'R GYMUNED
- SICRHAU BOD Y GWASANAETHAU A DDARPERIR YN ADLEWYRCHU ANGHENION UNIGOL
- CYNYDDU AMRYWIAETH Y GWEITHLU A CHYNHWYSIANT
- DILEU BYLCHAU CYFLOG
- SICRHAU BOD CYDRADDOLDEB YN CAEL EI YMGORFFORI YN Y BROSES GAFFAEL / COMISIYNU



## DATGANIADAU BWRIAD STRATEGOL CHWARAEON CYMRU

- BOD YN BERSON-GANOLOG
- RHOI DECHRAU GWYCH I BOB PERSON IFANC
- SICRHAU BOD PAWB YN CAEL CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON
- DOD Â PHOBL AT EI GILYDD AR GYFER Y TYMOR HIR
- DANGOS MANTEISION CHWARAEON
- BOD YN SEFYDLIAD O WERTH MAWR

# CAMAU GWEITHREDU CYDRADDOLDEB CHWARAEON CYMRU

Isod mae'r camau gweithredu y mae Chwaraeon Cymru yn bwriadu eu rhoi ar waith yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn trechu anghydraddoldeb. Bydd y gwaith yn cael ei arwain gan amrywiaeth eang o staff Chwaraeon Cymru a'i oruchwylio gan yr is-grŵp Amrywiaeth sydd wedi'i ffurfio o'r newydd fel rhan o'r Bwrdd.

## 1. BOD YN BERSON-GANOLOG.

1.1 Byddwn yn gweithredu model buddsoddi newydd sy'n cyd-fynd â chyllid i'n grwpiau blaenoriaeth: Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig (DALIE), anabledd, merched a genethod ac amddifadedd cymdeithasol.

1.2 Y Labordy – Gwyddoniaeth y Dinesydd. Partneriaeth Chwaraeon Cymru a Phrifysgol Caerdydd ar gyfer prosiect newydd wedi'i greu ar y cyd gyda chyfranogwyr o'r gymuned. Mae'r prosiect peilot yma ar gyfer cais cyllido.

1.3 Byddwn yn treialu'r defnydd o lais defnyddiwr wrth gynllunio gwasanaethau. Mae'r cynllun 60+ drwy ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol gyda grwpiau lleol yn esiampl o hyn.

## 2. RHOI DECHRAU GWYCH I BOB PERSON IFANC.

2.1 Byddwn yn parhau i ddatblygu Arolwg Cenedlaethol ar Chwaraeon Ysgol a fydd yn deall anghenion pobl ifanc Cymru a bydd yn cael ei ddefnyddio i neilltuo ein hadnoddau.

2.2 Byddwn yn sefydlu Panel Ieuenctid (mewn partneriaeth â'r Youth Sport Trust).

## 3. SICRHAU BOD PAWB YN CAEL CYFLE I FOD YN ACTIF DRWY CHWARAEON.

3.1 Sefydlu is-grŵp Bwrdd newydd ar Amrywiaeth.

3.2 Drwy gynlluniau Cronfa Cymru Actif (CCA) a'r Gronfa Cadernid Chwaraeon (CCCh), byddwn yn blaenoriaethu ceisiadau ar gyfer buddsoddiad sy'n sicrhau bod chwaraeon yn agored i bawb drwy fynd ati i dargedu anghydraddoldeb presennol yn rhagweithiol. Drwy fabwysiadu dull dysgu o weithredu, byddwn yn parhau i ddylanwadu ar y broses hon a'i mireinio.

3.3 Byddwn yn eirioli ac yn cefnogi rhaglenni ar gyfer Safonau Cydraddoldeb, cynhwysiant (insport) a darpariaeth Gymraeg gyda'n partneriaid.

## 4. DOD Â PHOBL AT EI GILYDD AR GYFER Y TYMOR HIR.

4.1 Rhaglen Clip – yn cynnwys ymgysylltu â'r sector i wella sgiliau a dulliau ymchwil, gan feithrin gallu'r sector.

4.2 Ymgysylltu â Chynghorau Chwaraeon eraill y Gwledydd Cartref, UK Sport, Sporting Equals ac arbenigwyr ar hil a chwaraeon er mwyn deall yr effeithiau.

4.3 Rydym wedi sefydlu grŵp o bartneriaid drwy CCA i helpu i roi sylw i anghydraddoldeb a chefnogi cymunedau lleol (mae'n cynnwys Street Games, BME Sport Cymru ac eraill) – byddwn yn defnyddio'r rhwydwaith hwn ar y cyd i ymgysylltu â chymunedau sy'n cymryd llai o ran mewn chwaraeon

4.4 Sefydlu 5 Partneriaeth Chwaraeon ledled Cymru a sicrhau bod mecanweithiau'n cael eu rhoi ar waith fel bod y gwasanaethau'n adlewyrchu angen lleol.

4.5 Cyfrannu at y fenter Hil mewn Chwaraeon sy'n cael ei gweithredu ar y cyd gan y Cynghorau Chwaraeon er mwyn sefydlu fforwm lle gall pobl siarad yn onest am eu profiadau byw o hiliaeth, gan sicrhau bod yr wybodaeth o'r fforwm hwn yn cael ei defnyddio a'i rhannu'n effeithiol.

## 5. DANGOS MANTEISION CHWARAEON.

5.1 Datblygu arolygon cenedlaethol a sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag bod yn actif drwy chwaraeon a'r elfennau sy'n eu galluogi i fod yn actif.

5.2 Cyfrannu at y fenter ar y cyd gan y Cynghorau Chwaraeon, Hil mewn Chwaraeon, drwy ddarn gwybodaeth eang i roi darlun cadarnach o hil ac anghydraddoldeb hiliol ar draws y system chwaraeon. Byddwn yn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei rhannu a'i defnyddio i sbarduno rhaglenni effeithiol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

## 6. BOD YN SEFYDLIAD O WERTH MAWR.

6.1 Cynllunio a chyflwyno rhaglen hyfforddi staff gynhwysfawr yn gysylltiedig â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

6.2 Gwaith newydd i gynyddu manwl gywirdeb a chyflawnder data am amrywiaeth staff.

6.3 Safoni casglu data amrywiaeth staff i alluogi meincnodi gyda sefydliadau eraill drwy ddadansoddi ac adrodd yn ôl ar ddata yn gyson.

6.4 Penodi cynrychiolwyr i Weithgorau Cyrff Cyhoeddus i weithredu dysgu ac i adolygu cynnydd.

6.5 Cyfrannu o drafodaethau Grŵp Ymgysylltu Chwaraeon Cymru (e.e. anghenion hyfforddi staff). Efallai y bydd hyn yn gofyn am ystyried arolygon ar staff o ran amrywiaeth/mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a'u safbwyntiau.

6.6 Adolygu ein dull o weithredu wrth lunio rhestri byrion o ymgeiswyr i sicrhau'r cyfleoedd gorau posib i grwpiau a dangynrychiolir.

6.7 Adolygu'r dull o weithredu gyda phrofiad gwaith a phrentisiaethau.

6.8 Rhoi cyfle i'r staff i gyd gyfrannu at ddatblygu Gwerthoedd Chwaraeon Cymru er mwyn hybu amgylchedd teg, cyfartal a chynhwysol ar draws y sefydliad.

6.9 Parhau i fod yn gyflogwr Cyflog Teg.

6.10 Ymrwymiad i adrodd ar Fwlch Cyflog Cyfartal a Rhyw.

6.11 Defnyddio gwerthuso swyddi safonol ar gyfer pob swydd newydd, neu newidiadau i swyddi presennol.

6.12 Adolygu polisïau Adnoddau Dynol cyfredol yng ngoleuni cyfleoedd positif yn dilyn gweithio o gartref oherwydd Covid-19.

6.13 Rhaglen hyfforddi arweinyddiaeth a rheolaeth ar y cyd â chyrff cyhoeddus eraill.

6.14 Chwaraeon Cymru i ystyried rôl ceisiadau'r rhaglenni Safonau Cydraddoldeb ac insport.

6.15 Adolygu egwyddorion caffael i'r sefydliad ymrwymo iddynt.

6.16 Cydweithio i hyfforddi a chefnogi staff i gyflwyno'r egwyddorion caffael.

6.17 Datblygu cronfa o gwestiynau am gydraddoldeb ac amrywiaeth i'w defnyddio mewn prosesau tendro.

6.18 Drwy weithgorau Partneriaeth Cydraddoldeb y Cyrff Cyhoeddus defnyddio arfer gorau cyrff cyhoeddus eraill a diweddaru polisïau cyfredol i adlewyrchu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

6.19 Ymgorffori arfaethedig, wrth i gontractau gael eu haildendro, ar dâl sy'n uwch na'r Isafswm Cyflog Real (o leiaf £10 yr awr ar hyn o bryd) ar gyfer unrhyw weithwyr a gyflogir fel rhan o gontractau sy'n cael eu rhoi ar dendr gan Chwaraeon Cymru.








# CYHOEDDI GWYBODAETH AM GYDRADDOLDEB

Mae Chwaraeon Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r wybodaeth ganlynol yn ei adroddiad Dyletswydd Cydraddoldeb Cyhoeddus blynyddol:

1. Amrywiaeth staff.
2. Amrywiaeth aelodau bwrdd.
3. Monitro amrywiaeth recriwtio.
4. Cyfleoedd Hyfforddi.
5. Cwynion, Anfodlonrwydd, Gwrandawiadau Disgyblu.
6. Monitro amrywiaeth staff sy'n gadael.
7. Data cyfranogiad mewn chwaraeon pobl ifanc o'r Arolwg ar Chwaraeon Ysgol.
8. Data cyfranogiad mewn chwaraeon oedolion o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Bydd yr adolygiad Hil mewn Chwaraeon yn ystyried y data sydd ar gael ar hyn o bryd i Gynghorau Chwaraeon a'u defnydd yn ystod 2020-21. Gall hyn arwain at argymhellion ar gyfer gwelliannau mewn argaeledd a defnydd o ddata yn y dyfodol.

# ASESIAD EFFAITH

Rhaid i bob papur Bwrdd gynnwys asesiad effaith manwl. Mae rhagor o waith ar ddatblygu'r asesiad effaith wedi cael ei gynnwys yn y camau gweithredu cydraddoldeb.

### MAE CHWARAEON CYMRU YN CYNLLUNIO I ADOLYGU EI ASESIAD EFFAITH YN 2020-21 GYDA'R AMCANION CANLYNOL:

1. Datrysiad digidol er mwyn gwella bodlonrwydd defnyddwyr a'i gwneud yn hawdd casglu data.
2. System gyfannol sy'n ystyried yr amrywiaeth eang o effeithiau posib.
3. Darparu gwerth ychwanegol i'r defnyddiwr er mwyn gwella boddhad a defnydd defnyddwyr.
4. Graddfa'r asesiad yn gymesur â'r newid a'r effaith bosib.

# MONITRO AC ADRODD YN ÔL

Rydym yn cydnabod bod chwaraeon a chydraddoldeb yn bodoli fel rhan o amgylchedd cymhleth ac anodd ei ddarogan. Gan gofio hyn, byddwn yn nodi'n glir ble gall ein gwaith sicrhau'r gwerth gorau posib, ond gan adlewyrchu hefyd yr angen am gael ein harwain gan ddysgu yn ein dulliau. Bydd hyn yn cynnwys bwrw ymlaen â phrosiectau a syniadau newydd gan hefyd sicrhau bod effaith camau gweithredu blaenorol yn sail i bob cyfnod datblygu.

Er bod y cynllun gweithredu sydd wedi'i gyhoeddi'n canolbwyntio ar feysydd sydd angen blaenoriaeth ar unwaith, bydd y dull hyblyg ac ystwyth hwn o weithredu'n arwain at newidiadau i'r cynllun gweithredu wrth i ni symud ymlaen drwy'r cylch 4 blynedd, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu addasu i amgylcheddau'n newid.

Byddwn yn adrodd yn ôl ar gynnydd ac yn amlinellu'r newidiadau i'r cynllun gweithredu drwy ein Hadroddiad Dyletswydd Cydraddoldeb Cyhoeddus Blynyddol.

CHWARAEON CYMRU